



## DISGRIFIAD SWYDD A MANYLEB Y PERSON

<b>Teitl y Swydd</b>	Rheolwr Rhaglen - Ecosystem Iechyd Digidol Cymru
<b>Lleoliad</b>	Bae Caerdydd
<b>Yn atebol i'r</b>	Pennaeth Mabwysiadu Arloesedd (Digidol, Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg)
<b>Yn gyfrifol am</b>	2
<b>Band Cyflog</b>	4A
<b>Cyflog</b>	£45,000
<b>Cyfnod</b>	Mae'r penodiad yn dibynnu ar dderbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyflawni rhaglen Ecosystem Iechyd Digidol Cymru.

### PRIF BWRPAS Y SWYDD:

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru (LSHW) yn sbarduno newid systematig a thrawsnewidiol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn creu dyfodol gwell i bobl Cymru. Ein rôl yw ysbrydoli arloesi a chydweithio rhwng diwydiant, iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â sefydliadau ymchwil er mwyn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol i bobl a theuluoedd ym mhob cwr o'r wlad.

I sbarduno newid, rydyn ni'n gweithio gyda GIG Cymru er mwyn deall problemau a nodi sut gall arloesi helpu i ddarparu gwell gofal. Rydyn ni'n helpu busnesau i greu atebion o ran iechyd a gofal cymdeithasol. Rydyn ni'n creu cysylltiadau sy'n galluogi pobl a sefydliadau i weithio mewn partneriaeth.

Ein cenhadaeth yw cyflymu'r broses o ddatblygu a mabwysiadu atebion arloesol i sicrhau gwell iechyd a llesiant. Ein gweledigaeth yw sicrhau mai Cymru yw'r lle sy'n cynnig dewis ac arloesedd ym maes iechyd, gofal a lles.

Rydyn ni'n chwilio am rywun eithriadol i ymuno â'n tîm fel Rheolwr Rhaglen - Ecosystem Iechyd Digidol Cymru sy'n rhannu ein gwerthoedd o ran tegwch, urddas a pharch – ac sy'n gallu gweithio gyda ni i'n helpu i adeiladu ar ein llwyddiannau, ac i sicrhau bod ein gweledigaeth uchelgeisiol yn cael ei gwireddu.

Ecosystem Iechyd Digidol Cymru cydweithrediad rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru a Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu atebion digidol arloesol i dargedu gwelliannau posibl yn y meysydd canlynol:

- ansawdd iechyd cleifion a dinasyddion;
- effeithlonrwydd a chynaliadwyedd y system; ac
- amodau gwaith gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae'r rhaglen, a ariennir drwy Raglen Effeithlonrwydd drwy Dechnoleg Llywodraeth Cymru, yn rhoi mynediad i ddatblygwyr atebion digidol at systemau GIG Cymru; yn



dod â rhanddeiliaid o bob rhan o'r gymuned iechyd digidol at ei gilydd i fynd i'r afael â rhwystrau a heriau i fabwysiadu a chyflwyno atebion o'r fath. Mae hefyd yn cysylltu prosiectau â phartneriaid a ffynonellau cymorth ynghyd ag arddangos arferion gorau, treialu systemau a dulliau gweithredu newydd, yn ogystal â rhannu gwybodaeth ledled Cymru drwy ddigwyddiadau a marchnata penodol.

Gan adrodd i'r Pennaeth Mabwysiadu Arloesedd (Digidol, Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg), mae Rheolwr y Rhaglen - EIDC yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o gyflwyno'r rhaglen EIDC yn llwyddiannus.

Bydd deiliad y swydd yn cynnal amryw o weithgareddau sy'n canolbwyntio ar gyflawni amcanion y rhaglen, dangosyddion perfformiad allweddol a nodau, gan gynnwys y canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddynt:

- Creu a thyfu ecosystem iechyd ddigidol
- Arwain y gwaith o ymgysylltu â'r diwydiant a chwmpas a chyflawni prosiectau penodol
- Gweithio gyda phartner y rhaglen i ddatblygu prosiectau i'w cynnig sy'n darparu atebion arloesol i ddiwallu heriau iechyd a gofal
- Cynrychioli EIDC mewn rhwydweithiau / digwyddiadau allanol
- Datblygu a chyflwyno rhaglen flynyddol o ddigwyddiadau a heriau

Bydd llwyddiant y rôl yn cael ei asesu yn erbyn amcanion unigol. Caiff perfformiad ei fesur hefyd ar sail cyflawni cynllun busnes EIDC yn gyffredinol yn erbyn gofynion y llythyr dyfarnu cyllid.

### **PRIF DDYLETSWYDDAU A CHYFRIFOLDEBAU:**

- Byddwch yn gyfrifol am bennu cwmpas y gweithgareddau sydd i'w cyflawni, eu datblygu a'u rhoi ar waith, er mwyn creu llif digonol o gyfleoedd arloesi ym maes iechyd digidol i gyflawni/i ragori ar y targedau a bennwyd yn y contract ar gyfer dangosyddion allbwn a cherrig milltir y rhaglen.
- Sefydlu a chynnal prosesau a pherthynas weithio effeithiol â'ch cydweithwyr yn y rhaglen (Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru), a tîm ehangach Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru er mwyn sicrhau dull gweithredu integredig i gyflawni targedau dangosyddion allbwn y contract a cherrig milltir y Rhaglen.
- Gweithio gyda'r tîm Marchnata, Cyfathrebu a Digwyddiadau i ddatblygu cyfathrebiadau a digwyddiadau sy'n creu cyfleoedd ac yn hybu llwyddiannau. Bydd hyn yn cynnwys cytuno ar themâu, cyfranwyr, siaradwyr, lleoliadau ac ati yn ogystal ag asesu llwyddiant gweithgareddau'r rhaglen.
- Cynrychioli DHEW a Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru mewn cyfarfodydd ee cyfarfodydd rhaglenni, gweithredu a chyflawni.
- Mynd i gynadleddau, digwyddiadau a chyfarfodydd i hyrwyddo'r rhaglen a rhoi cyflwyniadau ynddynt.
- Darparu gwasanaeth cyfeirio a chyngor i gleientiaid; cydlynu a chyflwyno prosiectau penodol sy'n cyflawni nodau'r rhaglen.



- Byddwch yn gyfrifol am weithgareddau rheoli'r rhaglen a'r prosiect, gan gynnwys yr isod:
  - Rheolaeth ariannol a rhagolygon ariannol
  - Rheoli Risg
  - Caffael a rheoli contractwyr / cyflenwyr
  - Cydymffurfriad y cwmni ee rheoli cofnodion a gwybodaeth
  - Cydymffurfriad y rhaglen ee tystiolaeth o hawliadau, rhoi gwybod am berfformiad
  - Adolygu a chynnal polisïau a phrosesau yn rheolaidd
  - Monitro ac adrodd ar berfformiad yn ôl yr holl elfennau allweddol sydd i'w cyflawni, risgiau, cyfleoedd a heriau ac ati ar gyfer ein holl randdeiliaid
  - Llunio hawliadau am gyllid
  - Adolygu a gwella gweithrediadau a phrosesau yn barhaus
- Cydymffurfio â gofynion monitro, adrodd, casglu tystiolaeth a chadw cofnodion ac amserlenni ar gyfer rhaglenni.
- Llunio a defnyddio systemau Hwb Gwyddorau Iechyd Cymru ac EIDC i gofnodi, monitro a rhoi adroddiadau ar weithgarwch o ran cyflawni.
- Llunio adroddiadau ar bob agwedd ar gyflawni'r prosiect sy'n bodloni'r fframwaith adrodd / gofynion rhanddeiliaid hy gofynion adrodd y Cwmni, y Rhaglen, a Llywodraeth Cymru.
- Mynd i weithgorau mewnol i sicrhau bod y rhaglen yn integreiddio ac yn cydymffurfio â datblygiadau o ran systemau, prosesau a pholisi.
- Gweithredu fel unigolyn "i fynd ato" i gynghori aelodau'r tîm ar ffynonellau grant a chyllid perthnasol arall, arwain ar weithgareddau datblygu bidiau digidol penodol a chymryd rhan mewn gweithgareddau datblygu bidiau tîm ehangach.
- Sicrhau y rheolir cyflenwyr yn effeithiol ac yn effeithlon. Bod yn gyfrifol am benodi a rheoli ymgynghorwyr / cyflenwyr allanol - monitro'r gwaith darparu yn erbyn y contract, ac ansawdd a chost-effeithiolrwydd hynny.
- Darparu diweddariadau amserol ar brosiectau, adroddiadau ar berfformiad a nodiadau briffio yn ôl y galw er mwyn cefnogi anghenion rheolwyr uwch, ARAC, y Bwrdd, Gweinidogion a Llywodraeth Cymru.
- Gweithio gyda'r Pennaeth Mabwysiadu Arloesedd (Digidol, Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg) a'r tîm cyllid i bennu ac adrodd ar y gyllideb flynyddol. Monitro a rheoli cyllideb EIDC.
- Cynnal trefniadau rheolaeth fewnol, prosesau a rheolaethau ariannol cadarn sy'n cydymffurfio ag egwyddorion rheoli'r cwmni ac sy'n bodloni ei rwymedigaethau cytundebol a chyfreithiol.



- Rhoi arweiniad, cyfarwyddyd a chymorth i'r rhai sy'n adrodd yn uniongyrchol i ddeiliad y swydd. Cynnal cyfarfodydd adolygu un-i-un rheolaidd, gan gynnwys gwerthusiadau bob chwe mis i gefnogi datblygiad a monitro perfformiad yn erbyn amcanion strategol a dangosyddion perfformiad allweddol. Gweithredu arferion, prosesau a pholisïau AD y cwmni er mwyn cefnogi iechyd a diogelwch a llesiant y tîm a sicrhau y cedwir atynt.
- Cefnogi'r Pennaeth Mabwysiadu Arloesedd (Digidol, Deallusrwydd Artiffisial a Roboteg), Cyfarwyddwr Mabwysiadu Arloesedd, a'r Prif Swyddog Gweithredol i hyrwyddo a chefnogi'r gwaith o gyflawni cenhadaeth, gweledigaeth a nodau'r cwmni.
- Cynnal safon uchel o ran cywirdeb yng nghyswllt materion ariannol, personél a phroffesiynol, cynnal cysylltiadau da â chydweithwyr a phartneriaid allanol a gweithredu'n unol â chod ymddygiad Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru.

## MANYLEB Y PERSON

<b>NODWEDDION</b>	<b>HANFODOL</b>	<b>DYMUNOL</b>
<b>GWYBODAETH</b>	Y diwydiant gwyddorau bywyd yng Nghymru a'r DU yn gyffredinol, a Digidol a Deallusrwydd Artiffisial yn benodol.	Deall y fframwaith a'r cyddestun gwleidyddol sy'n berthnasol i gwmni sy'n gweithredu fel "corff hyd braich" ar ran Llywodraeth Cymru
	Egwyddorion ac arferion rheoli prosiectau	
	Proses cynhyrchu bidiau a thirwedd ariannu arloesedd ym maes gofal iechyd yn y DU, Ewrop a thu hwnt	
<b>PROFIAD</b>	Cymhwyso methodoleg rheoli prosiectau mewn modd ymarferol, gan gynnwys rheoli costau, rheoli risg a chyfleoedd	Defnyddio methodoleg rheoli rhaglenni a phrosiectau yn ymarferol, gan gynnwys rheoli costau, rheoli risg a chyfleoedd ar gyfer llywodraeth ranbarthol neu genedlaethol
	Cynnull, arwain a chyfrannu at brosiectau cydweithredol rhwng sawl parti	Cynnull, arwain a chyfrannu at brosiectau cydweithredol rhwng sawl prosiect digidol/Deallusrwydd Artiffisial



	Cynhyrchu a gweithredu cynlluniau cyflawni / busnes a gweithredol i gyflawni nodau'r rhaglen a'r prosiect	
	Rheoli, annog a datblygu tîm i gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol a nodau strategol	
	Sicrhau cyllid o ffynonellau cyhoeddus	Sicrhau cyllid arloesedd ym maes gofal iechyd o ffynonellau cyhoeddus
	Cyflwyno i wahanol gynulleidfaoedd mewn gwahanol fathau o fforymau	
<b>SGILIAU A GALLU</b>	Brwd ac ymroddedig i gyflawni dangosyddion perfformiad allweddol	
	Arweinyddiaeth effeithiol - yn arwain drwy esiampl ac yn ymddwyn fel model rôl o ran ymddygiad a phroffesiynoldeb	
	Sgiliau cyfathrebu effeithiol a gwybodus (ysgrifenedig ac ar lafar) – gallu bod yn ystyriol a diplomataidd wrth gyfathrebu negeseuon, gwrandao ac yn ymateb yn briodol i sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol, a chynhyrchu gwaith ysgrifenedig i safon uchel	Gallu siarad Cymraeg
	Sgiliau rheoli perthnasoedd effeithiol - gallu datblygu perthnasoedd da a chynnal trafodaethau gyda'r holl randdeiliaid, a dylanwadu arnynt	



	Datrys problemau'n effeithiol – asesu gwybodaeth, ymddygiad a sefyllfaoedd yn fedrus er mwyn gwneud datrysiadau amserol ac ystyrlon sydd wedi'u hystyried yn dda	
	Amlwasgio'n effeithiol – gallu rheoli llawer o gyfrifoldebau ar unwaith, gan gyflawni dyletswyddau i safon uchel ac yn unol ag amserlenni	
	Gallu defnyddio pecynnau meddalwedd Windows, adnoddau rheoli prosiectau a systemau CRM	

## GOFYNION ERAILL

- Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus basio gwiriad diogelwch datgelu a gwahardd.
- Yn barod i weithio'n hyblyg i ddiwallu anghenion rhesymol y cwmni.
- Ymroddiad i weithio'n unol â gwerthoedd y cwmni.
- Gallu gweithredu ar ei liwt ei hun wrth ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.
- Gallu rheoli llwyth gwaith amrywiol a llawn ar ei ben ei hun.
- Trwydded yrru ddilys a'i gludiant ei hun. Fodd bynnag, fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydym yn croesawu ceisiadau gan bobl sy'n gallu gwneud trefniadau teithio addas o fath arall.

Nid bwriad y disgrifiad swydd hwn yw cynnwys pob agwedd ar y swydd, ond yn hytrach rhoi diffiniad clir o bwrpas, cyfrifoldebau a dimensiynau sylfaenol y rôl.

Ar ben yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn y disgrifiad swydd hwn, disgwylir i ddeiliad y swydd gyflawni pob tasg berthnasol a rhesymol arall y mae'r rheolwyr llinell yn ei rhoi iddo ef/hi.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru Cyf yn cydnabod ei bod yn bwysig datblygu a meithrin ei weithlu dwyieithog ac mae'n croesawu ceisiadau ar gyfer unrhyw swydd gan unigolion sy'n dangos eu bod yn gallu gweithio yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn gyflogwr cyfle cyfartal ac mae'n annog ceisiadau gan ymgeiswyr cymwys heb ystyried rhyw, hil, anabledd, oed, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, crefydd neu gred, statws priodasol neu feichiogrwydd a mamolaeth.



## JOB DESCRIPTION & PERSONAL SPECIFICATION

<b>Job Title</b>	Programme Manager – Digital Health Ecosystem Wales
<b>Location</b>	Cardiff Bay
<b>Responsible to</b>	Head of Innovation Adoption (Digital, AI and Robotics)
<b>Reportees</b>	2
<b>Salary Band</b>	4A
<b>Salary</b>	£45,000
<b>Term</b>	Appointment is contingent upon receipt of funding from Welsh Government in relation to delivery of the Digital Health Ecosystem Wales programme.

### MAIN PURPOSE OF ROLE:

Life Sciences Hub Wales (LSHW) drives transformational, systematic change in the health and social care sectors to create a better future for the people of Wales. Our role is to inspire innovation and collaboration between industry, health and social care, and research organisations to make a positive difference to people and families across the nation.

As a catalyst for change, we work with NHS Wales to understand issues and identify how innovation can help deliver better care. We support businesses to create health and social care solutions. We create connections which enable people and organisations to work in partnership.

Our mission is to accelerate the development and adoption of innovative solutions for better health and wellbeing. Our vision is to make Wales the place for choice and health, care and wellbeing innovation.

We are looking for someone exceptional to join our team as Programme Manager – Digital Health Ecosystem Wales who shares our values of fairness, dignity and respect and can work with us to build upon our achievements and ensure our ambitious vision becomes a reality.

Digital Health Ecosystem Wales is a collaboration between Life Sciences Hub Wales and the NHS Wales Informatics Service (NWIS) which supports the development of innovative digital solutions targeting potential improvements in:

- the quality of health of patients and citizens;
- efficiency and sustainability of the system; and
- the working conditions of health and social care professionals.

Funded through the Welsh Government's Efficiency through Technology Programme, the programme provides developers of digital solutions access to NHS Wales' systems; convenes stakeholders across the digital health community to tackle barriers





and challenges to adoption and rollout; connects projects with partners and sources of support; and showcases best practice, pilots new approaches and systems, and shares information across Wales through specific marketing and events.

Reporting to the Head of Innovation Adoption (Digital, AI and Robotics), the Programme Manager - DHEW is a crucial role in the successful delivery of the DHEW programme.

The post holder will conduct a range of industry focused activities to achieve programme aims, objectives and key performance indicators, to include but not limited to:

- The creation and growth of a digital health ecosystem
- Lead on engagement with industry and scope and deliver specific projects
- Work with programme partner in developing project proposals to deliver innovative solutions which meet health and care challenges
- Represent DHEW at external events / networks
- Develop and deliver an annual programme of events and challenges

The success of the role will be assessed against individual objectives. Performance will also be judged against the overall delivery of the DHEW business plan against the requirements of the funding award letter.

#### **MAIN DUTIES & RESPONSIBILITIES:**

- Responsible for scoping, developing and implementing delivering activity which will generate a sufficient pipeline of digital health innovation opportunities to achieve/exceed contracted output indicator targets and programme milestones.
- Establish and maintain effective working relationships and processes with programme colleagues (NWIS), and wider LSHW team to secure an integrated approach to the achievement of contracted output indicator targets and programme milestones.
- Work with Marketing, Communications and Events team to develop communications and events which generate opportunities and promote successes. This will include agreeing themes, contributors, speakers, venues etc and assessing success of activity.
- Represent DHEW and LSHW at meetings e.g. programme, operation and delivery meetings.
- Attend and present at conferences, events and meetings to promote the programme.
- Provide signposting and advice to clients; coordinate and deliver specific projects which deliver programme aims.
- Responsible for programme and project management activities to include:
  - Financial management and budget forecasting





- Risk Management
  - Procurement and managing contractors / suppliers
  - Company compliance e.g. information and records management
  - Programme compliance e.g. evidencing claims, reporting performance
  - Regular review and maintenance of policies and processes
  - Monitor and report performance against all key deliverables, risks, opportunities and challenges etc for all stakeholders
  - Compiling funding claims
  - Continuous review and improvement of operations and processes
- 
- Comply with programme monitoring, reporting, evidence gathering and record keeping requirements and timescale.
  - Develop and utilise LSHW and DHEW systems to capture, monitor and report delivery activity.
  - Produce reports on all aspects of delivery which meet reporting framework / stakeholders' requirements i.e. Company, Programme, Welsh Government reporting requirements.
  - Attend internal working groups to secure programme integration and compliance with system, process and policy developments.
  - Act as a "go to" person to advise team members on sources of grant and other relevant funding, lead on specific digital bid development activities and participate in wider team bid development activities.
  - Ensure effective and efficient supplier management. Responsible for the appointment and management of external consultants / suppliers - monitoring the delivery, quality and cost-effectiveness against contract.
  - Provide timely project updates, performance reports and briefings as required to support the needs of senior management, ARAC, Board, Welsh Government and Ministers.
  - Work with the Head of Innovation Adoption (Digital, AI & Robotics) and finance team to set and report annual budget. Monitor and control DHEW budget.
  - Maintain robust internal management, processes and financial controls which comply with the company's governing principles and satisfy it's legal and contractual obligations.
  - Provide leadership, direction and support to direct reports. Conduct regular one-to-one review meetings, including half-year appraisals to support development, monitor performance against strategic objectives and key performance indicators. Implement the company HR policies, processes and practices to support the health and safety and wellbeing of the team and that they are adhered to.



- Support the Head of Innovation Adoption (Digital, AI & Robotics), Innovation Adoption Director and CEO, to promote and support the achievement of the company’s mission, vision and goals.
- Maintain a high standard of probity in professional, personnel and financial matters, maintaining good relations with colleagues and external partners and to act in accordance with the LSHW’s code of conduct.

## PERSONAL SPECIFICATION

ATTRIBUTES	ESSENTIAL	DESIRABLE
<b>KNOWLEDGE</b>	Life sciences industry in Wales and the UK generally and Digital and AI specifically	An appreciation of the political context and framework for a company operating as a “arms-length body” of the Welsh Government
	Project management principles and practices	
	UK, European and international healthcare innovation funding landscape and bid production process	
<b>EXPERIENCE</b>	Practical application of project management methodology including cost control, risk and opportunity management	Practical application of programme and project management methodology including cost control, risk and opportunity management for regional or national government
	Convening, leading and participating in multi-party, collaborative projects	Convening, leading and participating in multi-party, collaborative digital/AI projects
	Production and implementation of business and operational / delivery plans to achieve programme and project aims	
	Managing, motivating and developing a team to deliver KPIs and strategic aims	
	Securing funding from public sources	Securing healthcare innovation funding from public sources



	Presenting to different audiences at different types of forums	
<b>SKILLS &amp; ABILITIES</b>	Driven and dedicated to achieving key performance indicators	
	Effective leadership - leads by example and acts as a role model in terms of behaviour and professionalism	
	Effective and informative communications skills (written and verbal) – ability to demonstrate tact and diplomacy when communicating messages, listens and responds appropriately in formal and informal situations, produces written work to a high standard	Ability to Speak Welsh
	Effective relationship management skills - ability to influence, negotiate and develop good relationships with all stakeholders	
	Effective problem solver - skilled at assessing information, behaviours and situations to make timely, considered and well-judged resolutions	
	Effective multitasker - ability to manage multiple responsibilities at once, performing duties to a high standard and to deadlines	
	Proficient in window-based software packages, project management tools and CRM systems	

### OTHER REQUIREMENTS

- Successful candidates must pass a disclosure and barring security check.
- Willingness to work flexibly to meet the reasonable needs of the company.
- Commitment to working in accordance with the company's values.
- Self-sufficient in use of information and communications technology.



- Ability to self-manage a full and varied workload.
- Valid driving license and own transport. However, as an equal opportunity employer, we welcome applications from those who are able to make alternative, suitable travel arrangements.

This role description is not intended to be exhaustive in every respect, but rather to clearly define the fundamental purpose, responsibilities and dimensions for the role.

In addition to the contents of this role description, the post holder will be expected to undertake all other reasonable and related tasks allocated by line management.

Life Sciences Hub Wales Ltd acknowledges the importance of developing and growing its bilingual workforce and welcomes applications for any post from candidates who demonstrate their capability to work in both English and Welsh.

Life Sciences Hub Wales is an equal opportunities employer and positively encourages applications from suitably qualified and eligible candidates regardless of sex, race, disability, age, sexual orientation, gender reassignment, religion or belief, marital status, or pregnancy and maternity.